



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2021 Rhif 862 (Cy. 201)**

**2021 No. 862 (W. 201)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

**PUBLIC HEALTH, WALES**

Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif  
5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14)  
2021

The Health Protection (Coronavirus  
Restrictions) (No. 5) (Wales)  
(Amendment) (No. 14) Regulations  
2021

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Part 2A of the Public Health (Control of Disease) Act 1984 enables the Welsh Ministers, by regulations, to make provision for the purpose of preventing, protecting against, controlling or providing a public health response to the incidence or spread of infection or contamination in Wales.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

These Regulations are made in response to the serious and imminent threat to public health which is posed by the incidence and spread of severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2) in Wales.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1609 (Cy. 335)) ("y prif Reoliadau").

These Regulations amend the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/1609 (W. 335)) ("the principal Regulations").

Mae'r Rheoliadau yn diwygio Atodlen 1 i'r prif Reoliadau (sy'n nodi'r cyfyngiadau a'r gofynion sy'n cael effaith yng Nghymru ar hyn o bryd fel ardal Lefel Rhybudd 1) er mwyn—

The Regulations amend Schedule 1 to the principal Regulations (which sets out the restrictions and requirements that currently have effect in Wales as an Alert Level 1 area) to—

- caniatáu i unrhyw 6 pherson, neu aelodau o ddim mwy na 2 aelwyd, ymgynnull o dan do mewn anheddau preifat a llety gwyliau neu lety teithio, hyd yn oed os nad yw'r personau hynny yn aelodau o'r un aelwyd estynedig (ac wrth benderfynu ar nifer y bobl sy'n ymgynnull, nid yw plant o dan 11 oed na gofalwyr personau sy'n ymgynnull i'w hystyried);
- dileu'r terfyn blaenorol o 30 ar nifer y bobl y caniateir iddynt ymgynnull yn yr awyr agored (ond rhaid i bersonau sy'n gyfrifol am fangreoedd rheoleiddiedig yn yr awyr agored barhau i gydymffurfio â rheoliad 16 o'r prif Reoliadau drwy gymryd pob mesur rhesymol, yn seiliedig ar asesiad risg, i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y fangre);
- caniatáu i ddigwyddiadau rheoleiddiedig o dan do gael eu trefnu, ar yr amod nad yw mwy na 1,000 (pan fo pob person sy'n bresennol yn eistedd fel arfer) neu 200 (ar gyfer digwyddiadau eraill) o bobl yn bresennol ar unrhyw adeg;
- dileu'r cyfyngiad ar bobl yn ymgynnull mewn cynulliad neu ddigwyddiad rheoleiddiedig a gynhelir o dan do (ond unwaith eto, rhaid i'r person sy'n gyfrifol am y fangre gydymffurfio â'r uchafswm nifer a gaiff fod yn bresennol a rheoliad 16 o'r prif Reoliadau, gan gynnwys cymryd pob mesur rhesymol, yn seiliedig ar asesiad risg, i sicrhau y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng pobl yn y fangre, ac eithrio rhwng aelodau o grwpiau o hyd at 6 o bobl sy'n ymgynnull gyda'i gilydd yn y digwyddiad neu aelodau o'r un aelwyd);
- caniatáu i hyd at 30 o blant (o unrhyw oedran) ymgynnull mewn llety gwyliau neu lety teithio (er enghraifft, er mwyn aros dros nos) pan fo'r cynulliad yn gysylltiedig â chynulliad rheoleiddiedig er datblygiad neu lesiant plant, megis y rheini a ddarperir ar gyfer plant y tu allan i oriau'r ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol mewn manau megis canolfannau addysg awyr agored, neu'n gysylltiedig â chynulliad y mae'r plant yn cymryd rhan ynddo at ddiben cael gafael ar addysg neu gael addysg;
- dileu'r terfyn blaenorol (o 4,000 neu 10,000 o bobl) ar nifer y bobl a gaiff fynd i ddigwyddiadau rheoleiddiedig awyr agored ar unrhyw adeg (ond bydd angen parhau i osod capasiti digwyddiadau yng ngoleuni'r mesurau rhesymol sydd i'w cymryd, yn seiliedig ar asesiad risg, o dan reoliad 16 o'r prif Reoliadau);
- caniatáu i rinciau sglefrio iâ agor.
- allow any 6 persons, or the members of no more than 2 households, to gather indoors in private dwellings and holiday or travel accommodation, even if those persons aren't members of the same extended household (and in determining the number of persons gathering, no account is to be taken of children under 11 and the carers of persons gathering);
- remove the previous limit of 30 on the number of people that are allowed to gather outdoors (but persons responsible for regulated premises outdoors must still comply with regulation 16 of the principal Regulations by taking all reasonable measures, based on a risk assessment, to minimise the risk of exposure to coronavirus at the premises);
- allow indoor regulated events to be organised, provided that no more than 1,000 (where every person attending is normally seated) or 200 (for other events) people attend at any time;
- removing the restriction on people gathering at a regulated gathering or event held indoors (but again, the person responsible for the premises must comply with the maximum number that can attend and regulation 16 of the principal Regulations, including taking all reasonable measures, based on a risk assessment, to ensure that a distance of 2 metres is maintained between people on the premises, apart from between members of groups of up to 6 people that are gathering together at the event or members of the same household);
- allow up to 30 children (of any age) to gather at holiday or travel accommodation (for example, for overnight stays) where the gathering is related to a regulated gathering for the development or well-being of children, such as those provided for children outside of school hours and during school holidays at places such as outdoor education centres, or is related to a gathering at which the children are participating for the purpose of accessing or receiving education;
- remove the previous limit (of 4,000 or 10,000 people) on the number of people that may attend outdoor regulated events at any time (but event capacities will need to continue to be set in light of the reasonable measures to be taken, based on a risk assessment, under regulation 16 of the principal Regulations);
- allow ice skating rinks to open.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio rheoliadau 16 a 17 o'r prif Reoliadau.

The Regulations also amend regulations 16 and 17 of the principal Regulations.

Mae'r diwygiadau i reoliad 16 yn darparu bod rhaid i berson sy'n gyfrifol am fangre reoleiddiedig ddarparu gwybodaeth i bersonau sy'n gweithio yn y fangre ynghylch yr asesiad o'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws a'r mesurau sydd i'w cymryd i leihau'r risg. Maent hefyd yn darparu nad yw'r gofyniad penodol i gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng pobl yn y fangre ond yn gymwys bellach i fangreoedd o dan do (ond mae dyletswydd o hyd i gymryd mesurau rhesymol i leihau risgiau mewn mangreoedd awyr agored, a all gynnwys cyfyngu ar ryngweithio corfforol agos rhwng pobl yn y fangre).

Mae'r diwygiadau i reoliad 17 yn darparu nad yw'n ofynnol i bersonau sy'n mynd i gynulladau neu ddigwyddiadau rheoleiddiedig mewn mangreoedd trwyddedig eistedd wrth fwyta neu yfed.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud mân ddiwygiadau eraill, gan gynnwys diwygiadau sy'n ganlyniadol ar y diwygiadau a nodir uchod.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

The amendments to regulation 16 provide that a person responsible for regulated premises must provide information to persons working at the premises about the assessment of the risk of exposure to coronavirus and the measures to be taken to minimise the risk. They also provide that the specific requirement to take all reasonable measures to ensure that a distance of 2 metres is maintained between people on premises now only applies to indoor premises (but there is still a duty to take reasonable measures to mitigate risks at outdoor premises, which can include limiting close physical interaction between people on the premises).

The amendments to regulation 17 provide that persons attending regulated gatherings or events at licensed premises are not required to be seated when consuming food or drink.

The Regulations also make other minor amendments, including amendments that are consequential on the amendments set out above.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has not been prepared as to the likely cost and benefit of complying with these Regulations.

**2021 Rhif 862 (Cy. 201)**

**2021 No. 862 (W. 201)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

**PUBLIC HEALTH, WALES**

Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif  
5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14)  
2021

The Health Protection (Coronavirus  
Restrictions) (No. 5) (Wales)  
(Amendment) (No. 14) Regulations  
2021

*Cymeradwywyd gan Senedd Cymru*

*Approved by Senedd Cymru*

*Gwnaed am 3.51 p.m. ar 16 Gorffennaf 2021*

*Made at 3.51 p.m. on 16 July 2021*

*Gosodwyd gerbron Senedd  
Cymru am 5.30 p.m. ar 16 Gorffennaf 2021*

*Laid before Senedd  
Cymru at 5.30 p.m. on 16 July 2021*

*Yn dod i rym 17 Gorffennaf 2021*

*Coming into force 17 July 2021*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 45C(1) and (3)(c), 45F(2) and 45P(2) of the Public Health (Control of Disease) Act 1984(1).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

These Regulations are made in response to the serious and imminent threat to public health which is posed by the incidence and spread of severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2) in Wales.

---

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

---

(1) 1984 c. 22. Sections 45C, 45F and 45P were inserted by section 129 of the Health and Social Care Act 2008 (c. 14). The functions under these sections are conferred on "the appropriate Minister". Under section 45T(6) of the 1984 Act the appropriate Minister, as respects Wales, is the Welsh Ministers.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

### Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 17 Gorffennaf 2021.

### Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020

2.—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 16(1)—

- (a) o dan bennawd “*Cam 2*”, ar ôl “coronafeirws” mewnosoder “, gan gynnwys gwybodaeth i'r rheini sy'n gweithio yn y fangre ynglŷn â'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws a nodir o dan yr asesiad a gynhelir o dan Gam 1, a'r mesurau sydd i'w cymryd o dan Gam 3 a Cham 4 i leihau'r risg”;
- (b) o dan bennawd “*Cam 3*”—
  - (i) yn is-baragraff (a), ar ôl “bersonau” mewnosoder “o dan do”;
  - (ii) yn is-baragraff (b), ar ôl “aros” rhodder “o dan do”;
- (c) o dan bennawd “*Cam 4*”—
  - (i) yn y geiriau o flaen is-baragraff (a), yn lle “yn agos at ei gilydd” rhodder “yn y fangre”;
  - (ii) yn is-baragraff (c), yn y geiriau o flaen paragraff (i)—

The Welsh Ministers consider that restrictions and requirements imposed by these Regulations are proportionate to what they seek to achieve, which is a public health response to that threat.

In accordance with section 45R of that Act the Welsh Ministers are of the opinion that, by reason of urgency, it is necessary to make this instrument without a draft having been laid before, and approved by a resolution of, Senedd Cymru.

### Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) (Amendment) (No. 14) Regulations 2021.

(2) These Regulations come into force on 17 July 2021.

### Amendment to the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) Regulations 2020

2.—(1) The Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) Regulations 2020(1) are amended as follows.

(2) In regulation 16(1)—

- (a) under the “*Step 2*” heading, after “coronavirus” insert “, including information to those working at the premises about the risk of exposure to coronavirus identified under the assessment undertaken under Step 1, and the measures to be taken under Step 3 and Step 4 to minimise the risk”;
- (b) under the “*Step 3*” heading—
  - (i) in sub-paragraph (a), after “persons” insert “indoors”;
  - (ii) in sub-paragraph (b), after “wait” insert “indoors”;
- (c) under the “*Step 4*” heading—
  - (i) in the words before sub-paragraph (a), for “in close proximity” substitute “on the premises”;
  - (ii) in sub-paragraph (c), in the words before paragraph (i)—

---

(1) O.S. 2020/1609 (Cy. 335) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1610 (Cy. 336), O.S. 2020/1623 (Cy. 340), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7), O.S. 2021/46 (Cy. 10), O.S. 2021/57 (Cy. 13), O.S. 2021/66 (Cy. 15), O.S. 2021/95 (Cy. 26), O.S. 2021/103 (Cy. 28), O.S. 2021/172 (Cy. 40), O.S. 2021/210 (Cy. 52), O.S. 2021/307 (Cy. 79), O.S. 2021/413 (Cy. 133), O.S. 2021/502 (Cy. 150), O.S. 2021/542 (Cy. 154), O.S. 2021/583 (Cy. 160), O.S. 2021/668 (Cy. 169), O.S. 2021/686 (Cy. 172) ac O.S. 2021/722 (Cy. 183).

---

(1) S.I. 2020/1609 (W. 335) as amended by S.I. 2020/1610 (W. 336), S.I. 2020/1623 (W. 340), S.I. 2020/1645 (W. 345), S.I. 2021/20 (W. 7), S.I. 2021/46 (W. 10), S.I. 2021/57 (W. 13), S.I. 2021/66 (W. 15), S.I. 2021/95 (W. 26), S.I. 2021/103 (W. 28), S.I. 2021/172 (W. 40), S.I. 2021/210 (W. 52), S.I. 2021/307 (W. 79), S.I. 2021/413 (W. 133), S.I. 2021/502 (W. 150), S.I. 2021/542 (W. 154), S.I. 2021/583 (W. 160), S.I. 2021/668 (W. 169), S.I. 2021/686 (W. 172) and S.I. 2021/722 (W. 183).

- (aa) yn lle “agos wyneb yn wyneb” rhodder “corfforol agos”;
- (bb) ar ôl “fangre” mewnosoder “, yn benodol rhyngweithio wyneb yn wyneb”.
- (3) Yn rheoliad 17(4A)—
- (a) yn y geiriau o flaen is-baragraff (a), yn lle “Nid yw is-baragraffau (b)(i) a (ii) o baragraff (1)” rhodder “Nid yw paragraff (1)(b)”;
- (b) yn is-baragraff (b), hepgorer “sy’n cael ei gynnal yn yr awyr agored”.
- (4) Yn Atodlen 1—
- (a) ym mharagraff 1—
- (i) yn lle is-baragraff (1) rhodder—
- “(1) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, gymryd rhan mewn cynulliad o dan do mewn annedd breifat sy’n cynnwys mwy na 6 o bobl oni bai—
- (a) bod yr holl bersonau sy’n cymryd rhan yn y cynulliad yn aelodau o’r un aelwyd neu’r un aelwyd estynedig, neu
- (b) pan na fo’r holl bersonau sy’n cymryd rhan yn y cynulliad yn aelodau o’r un aelwyd neu’r un aelwyd estynedig, fod yr holl bersonau sy’n cymryd rhan yn y cynulliad yn aelodau o ddim mwy na 2 aelwyd.”;
- (ii) hepgorer is-baragraff (1A);
- (iii) yn is-baragraff (2)—
- (aa) yn y geiriau o flaen paragraff (a), yn lle “(1A)” rhodder “(1)”;
- (bb) ym mharagraff (a), yn lle “30 o aelwydydd” rhodder “6 aelwyd”;
- (iv) hepgorer is-baragraff (5)(d);
- (b) ym mharagraff 2—
- (i) yn lle is-baragraff (1) rhodder—
- “(1) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, gymryd rhan mewn cynulliad sy’n digwydd o dan do ac eithrio mewn annedd breifat neu mewn llety gwyliau neu lety teithio sy’n cynnwys mwy na 6 o bobl oni bai bod yr holl bersonau sy’n cymryd rhan yn y cynulliad yn aelodau o’r un aelwyd.”;
- (ii) yn lle is-baragraff (1A) rhodder—
- “(1A) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, gymryd rhan mewn cynulliad sy’n digwydd o dan do mewn llety gwyliau neu lety teithio sy’n cynnwys mwy na 6 o bobl oni bai—
- (aa) for “face-to-face” substitute “physical”;
- (bb) after “premises” insert “, in particular face-to-face interaction”.
- (3) In regulation 17(4A)—
- (a) in the words before sub-paragraph (a), for “Sub-paragraphs (b)(i) and (ii) of paragraph (1) do” substitute “Paragraph (1)(b) does”;
- (b) in sub-paragraph (b), omit “that is held outdoors”.
- (4) In Schedule 1—
- (a) in paragraph 1—
- (i) for sub-paragraph (1) substitute—
- “(1) No person may, without a reasonable excuse, participate in a gathering indoors in a private dwelling which consists of more than 6 people unless—
- (a) all the persons participating in the gathering are members of the same household or extended household, or
- (b) where all the persons participating in the gathering are not members of the same household or extended household, all the persons participating in the gathering are members of no more than 2 households.”;
- (ii) omit sub-paragraph (1A);
- (iii) in sub-paragraph (2)—
- (aa) in the words before paragraph (a), for “(1A)” substitute “(1)”;
- (bb) in paragraph (a), for “30” substitute “6”;
- (iv) omit sub-paragraph (5)(d);
- (b) in paragraph 2—
- (i) for sub-paragraph (1) substitute—
- “(1) No person may, without a reasonable excuse, participate in a gathering which takes place indoors other than in a private dwelling or in holiday or travel accommodation which consists of more than 6 people unless all the persons participating in the gathering are members of the same household.”;
- (ii) for sub-paragraph (1A) substitute—
- “(1A) No person may, without a reasonable excuse, participate in a gathering which takes place indoors in holiday or travel accommodation which consists of more than 6 people unless—

- (a) bod yr holl bersonau sy'n cymryd rhan yn y cynulliad yn aelodau o'r un aelwyd neu'r un aelwyd estynedig, neu
- (b) pan na fo'r holl bersonau sy'n cymryd rhan yn y cynulliad yn aelodau o'r un aelwyd neu'r un aelwyd estynedig, fod yr holl bersonau sy'n cymryd rhan yn y cynulliad yn aelodau o ddim mwy na 2 aelwyd.”;
- (iii) hepgorer is-baragraff (1B);
- (iv) yn is-baragraff (2)—
- (aa) yn y geiriau o flaen paragraff (a), yn lle “(1B)” rhodder “(1A)”;
- (bb) yn lle paragraff (a) rhodder—
- “(a) unrhyw blant o dan 11 oed, cyhyd â bod y personau sy'n cymryd rhan yn y cynulliad (gan gynnwys unrhyw blant o dan 11 oed) yn dod o ddim mwy na 6 aelwyd, neu”;
- (v) yn is-baragraff (5)—
- (aa) yn lle paragraff (i) rhodder—
- “(i) cymryd rhan mewn cynulliad neu ddigwyddiad rheoleiddiedig sy'n digwydd i unrhyw raddau o dan do ac eithrio mewn llety gwyliau neu lety teithio, yn mynd i gynulliad neu ddigwyddiad o'r fath neu'n hwyluso cynulliad neu ddigwyddiad o'r fath;”;
- (bb) hepgorer paragraffau (j) a (k);
- (cc) ym mharagraff (ka)—
- (i) yn y geiriau o flaen is-baragraff (i), yn lle “blant ysgol gynradd” rhodder “ddim mwy na 30 o blant”;
- (ii) yn lle paragraff (i) rhodder—
- “(i) cynulliad rheoleiddiedig er datblygiad neu lesiant plant (gan gynnwys chwaraeon, cerddoriaeth a gweithgareddau hamdden eraill megis y rheini a ddarperir ar gyfer plant y tu allan i oriau'r ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol);”;
- (vi) hepgorer is-baragraff (6);
- (c) ym mharagraff 4—
- (i) yn is-baragraff (1)—
- (aa) ym mharagraff (a), ar y diwedd mewnosoder “a”;
- (bb) hepgorer paragraff (b), gan gynnwys yr “ac” ar y diwedd;
- (a) all the persons participating in the gathering are members of the same household or extended household, or
- (b) where all the persons participating in the gathering are not members of the same household or extended household, all the persons participating in the gathering are members of no more than 2 households.”;
- (iii) omit sub-paragraph (1B);
- (iv) in sub-paragraph (2)—
- (aa) in the words before paragraph (a), for “(1B)” substitute “(1A)”;
- (bb) for paragraph (a) substitute—
- “(a) any children under the age of 11, as long as the persons participating in the gathering (including any children under the age of 11) are from no more than 6 households, or”;
- (v) in sub-paragraph (5)—
- (aa) for paragraph (i) substitute—
- “(i) participating in, attending or facilitating a regulated gathering or event that takes place to any extent indoors other than at holiday or travel accommodation;”;
- (bb) omit paragraphs (j) and (k);
- (cc) in paragraph (ka)—
- (i) in the words before sub-paragraph (i), for “primary school children” substitute “no more than 30 children”;
- (ii) for paragraph (i) substitute—
- “(i) a regulated gathering for the development or well-being of children (including sports, music and other recreational activities such as those provided for children outside of school hours and during school holidays);”;
- (vi) omit sub-paragraph (6);
- (c) in paragraph 4—
- (i) in sub-paragraph (1)—
- (aa) in paragraph (a), at the end insert “and”;
- (bb) omit paragraph (b), including the “and” at the end;

- (cc) ym mharagraff (c), ar y dechrau mewnosoder “pan fo’r digwyddiad yn cael ei gynnal i unrhyw raddau o dan do,”;
- (ii) yn is-baragraff (1A)—
  - (aa) ym mharagraff (a), yn lle “10000” rhodder “1000”;
  - (bb) ym mharagraff (b), yn lle “4000” rhodder “200”;
- (iii) yn is-baragraff (2)—
  - (aa) hepgorer paragraffau (f) ac (ga);
  - (bb) ym mharagraff (k), yn lle “lle y mae’r holl bobl sy’n bresennol yn aelodau o’r un aelwyd neu’r un aelwyd estynedig.” rhodder “—
    - (i) lle nad yw mwy na 6 o bobl yn bresennol,
    - (ii) lle y mae’r holl bobl sy’n bresennol yn aelodau o’r un aelwyd neu’r un aelwyd estynedig, neu
    - (iii) pan na fo’r holl bersonau sy’n bresennol yn aelodau o’r un aelwyd neu’r un aelwyd estynedig, lle y mae’r holl bobl sy’n bresennol yn aelodau o ddim mwy na 2 aelwyd.”;
- (d) ym mharagraff 7(1), yn y geiriau o flaen paragraff (a), yn lle “, 10 neu 11” rhodder “neu 10”;
- (e) hepgorer paragraff 11.

- (cc) in paragraph (c), at the beginning insert “where the event is held to any extent indoors,”;
- (ii) in sub-paragraph (1A)—
  - (aa) in paragraph (a), for “10000” substitute “1000”;
  - (bb) in paragraph (b), for “4000” substitute “200”;
- (iii) in sub-paragraph (2)—
  - (aa) omit paragraphs (f) and (ga);
  - (bb) in paragraph (k), for “all of the people in attendance are members of the same household or extended household.” substitute “—
    - (i) no more than 6 people are in attendance,
    - (ii) all of the people in attendance are members of the same household or extended household, or
    - (iii) where all the people in attendance are not members of the same household or extended household, all of the people in attendance are members of no more than 2 households.”;
- (d) in paragraph 7(1), in the words before paragraph (a), for “, 10 or 11” substitute “or 10”;
- (e) omit paragraph 11.

*Mark Drakeford*

Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru  
Am 3.51 p.m. ar 16 Gorffennaf 2021

First Minister, one of the Welsh Ministers  
At 3.51 p.m. on 16 July 2021

©©Hawlfraint y Goron 2021

© Crown copyright 2021

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty’s Stationery Office and Queen’s Printer of Acts of Parliament.

£6.90

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2021/862>

ISBN 978-0-348-11968-8



9 780348 119688